Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# 2024 - 2028

This document is available in English, and in other languages and formats on request.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.

**Tabl Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Trosolwg o Dorfaen | 4 |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus | 11 |
| Y Nodweddion Gwarchodedig | 13 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 14 |
| Gwent – Rhanbarth Marmot | 15 |
| Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 | 16 |
| Dyletswydd gymdeithasol-economiaidd | 17 |
| Argymhellion | 17 |
| Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol 2024 – 2028 | 19 |
| Ymgynghoriad ar yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2024 – 2028 | 20 |
| Sut y byddwn yn cyflenwi ac yn monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol? | 21 |
| Cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol | 21 |
| Cydraddoldeb a Chaffael | 22 |
| | |
| Atodiad 1: Camau Gweithredu'r Adroddiad Cydraddoldeb Strategol DRAFFT | 23 |

**Rhagair**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant, amrywiaeth a chyfiawnder cymdeithasol ym mherfformiad pob agwedd o'i fusnes. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 wedi ei gynhyrchu i lywio ymdrechion y Cyngor i hyrwyddo cydraddoldeb a dangos ein hymrwymiad parhaus i fodloni Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae'r cynllun yn dangos i staff, trigolion, rhanddeiliaid ac aelodau etholedig sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiadau cydraddoldeb, gan barhau ar yr un pryd i fod yn sefydliad cynhwysol nad yw'n goddef gwahaniaethu o unrhyw fath.

Mae'r rhain yn amserau heriol ac rydym yn canfod ein hunain mewn lle anodd yn ariannol i lywodraeth leol. Ar adeg o doriadau pellach i gyllidebau a llai o adnoddau o ran staff, mae angen bod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gallwn ei wneud a'i gyflawni, serch hynny mae'n hanfodol ystyried ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chofio ei rôl wrth i ni gyrraedd nodau tymor hir ac atal costau uwch fyth mewn blynyddoedd i ddod. Rydym wedi datblygu'r cynllun hwn gan wybod bod rhaid i ni ganolbwyntio ar amcanion a chamau gweithredu sy'n cael effaith ac sy'n parhau i fod yn uchelgeisiol ac yn mynegi'n llawn ein penderfyniad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Fel un o gyflogwyr mwyaf y fwrdeistref, mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn dechrau gartref, gan ystyried y ffordd yr ydym yn cyflogi pobl a'r ffordd yr ydym yn cefnogi datblygiad a chynnydd staff mewn ffordd sy'n deg ac yn gydradd. Yn y gweithle, mae cydraddoldeb yn golygu sicrhau bod gan gyflogeion i gyd fynediad i adnoddau, cyfleoedd a thâl teg, waeth beth yw eu rhyw, tueddiad rhywiol, ethnigrwydd, credoau, eu statws o ran perthynas, a ydyn nhw'n newid rhywedd neu'n feichiog, neu eu hoedran. Ni ddylai neb gael eu cadw'n ôl rhag cyrraedd yr hyn y mae modd iddyn nhw gyflawni oherwydd nodwedd nad oes ganddyn nhw unrhyw reolaeth drosti.

Mewn gweithleoedd cynhwysol, mae cyflogeion i gyd yn teimlo bod croeso iddynt, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cael eu cynnwys, eu cefnogi ac yn gallu bod yn nhw eu hunain - sy'n meithrin ymddiriedaeth, ysgogiad, bodlonrwydd yn eu swydd ac, yn y pen draw, canlyniadau gwell i'n cymunedau. Mae gallu dangos lle gwaith cynhwysol ac amrywiol yn helpu recriwtio, yn helpu'r sefydliad nid yn unig i lenwi swyddi ond hefyd denu pobl ag amrywiaeth eang o brofiadau ac amrywiaeth gwybyddol, gan ein helpu ni i osgoi rhagfarn a meddwl fel grŵp ac edrych ar faterion o amrywiaeth o safbwyntiau.

Ac, wrth gwrs, mae cael gweithlu cydwybodol, gyda phrofiad bywyd a dealltwriaeth o anghenion amrywiol pobl yn hanfodol i ni i allu cyflenwi gwahaniaethau sy'n bodloni'r anghenion hynny. Rydym ni yma i weithio gyda'n cymunedau ac mae'r cynllun hwn yn pwysleisio ein hymrwymiad parhaus i ymgysylltu â phobl o bob cefndir. Yn wir, mae datblygu'r cynllun hwn wedi rhoi'r pleser i ni o ystyried ymrwymiad rhyfeddol staff ac Aelodau Etholedig pob dydd, ymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chefnogi nid yn unig y mwyaf bregus yn ein cymunedau ond, mewn gwirionedd, pawb yn ein cymunedau.

Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb yn ceisio gwella Torfaen i bawb sy'n byw yma. Pan fo bywyd yn gwella i'r mwyaf difreintiedig yn ein cymunedau, mae'n gwella i bawb.

| | |
|---|---|
| **Stephen Vickers** | **Anthony Hunt** |
| **Prif Weithredwr** | **Arweinydd** |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** | **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** |

**Cyflwyniad**

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gyhoeddi pob pum mlynedd ac mae'n amlinellu beth fydd y Cyngor yn ei wneud i fodloni ein cyfrifoldebau o dan y Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Mae hefyd yn dangos ymrwymiad y Cyngor at fodloni Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, a ddaeth i rym yn 2011 ac mae'n cysylltu â deddfwriaeth a rheoliadau eraill sy'n cynnwys materion Iaith Gymraeg a Hawliau Dynol. Mae'n cefnogi mewn ffordd uniongyrchol 3 o'r 7 o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu gyda ffocws ar argymhellion Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a chynlluniau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chydraddoldeb, sydd wedi cael eu cynhyrchu ar y cyd gyda rhanddeiliaid ar ôl ymgynghoriad â'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio.

I helpu i wella'r cynllun gweithredu, y byddwn yn ei ystyried yn flynyddol, rydym yn croesawu unrhyw sylwadau cyffredinol wrth fynd ymlaen gan y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu a'r bobl yr ydym yn eu cyflogi. Rydym hefyd yn croesawu sylwadau neu gwestiynau ynglŷn â chynnwys, ansawdd a hygyrchedd y ddogfen hon.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech wybod mwy am waith y Cyngor, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Swyddog Cydraddoldeb, Partneriaethau a Pholisi, UCGC
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

E-bost: equality@torfaen.gov.uktorfaen
Ffôn: 01495 762200

**Trosolwg o Dorfaen**

Mae Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ne ddwyrain Cymru ac mae'n ffinio dinas Casnewydd i'r de, Sir Fynwy i'r dwyrain a bwrdeistrefi sirol Caerffili a Blaenau Gwent i'r gorllewin a'r gogledd orllewin. Mae Torfaen yn cwmpasu ardal 126 cilomedr2 a dyma'r 3ydd fwrdeistref leiaf yng Nghymru.

Rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf (yn 2011 a 2021), cynyddodd poblogaeth Torfaen 1.3%, o tua 91,100 yn 2011 i tua 92,300 yn 2021. Cynyddodd poblogaeth Torfaen tua'r un faint â phoblogaeth Cymru'n gyffredinol; cynyddodd poblogaeth Cymru 1.4% 0 3,063,000 i 3,107,000.

Yn 2021, roedd Torfaen yn gartref i tua 5.2 o bobl i bob darn o dir maint cael pêl-droed. Yr ardal hon oedd y drydedd ardal fwyaf trwchus ei phoblogaeth yn 22 o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru (ar ôl Caerdydd a Chasnewydd).
Mae yna dri phrif aneddiad yn mynd o'r de i'r gogledd. Mae'r rhan fwyaf o rannau deheuol y fwrdeistref sirol yn ymgasglu o gwmpas cytrefiad Tref Newydd Cwmbrân sydd â phoblogaeth o ryw 49,000.

Canolfan Cwmbrân, sy'n eiddo i ac yn cael ei rheoli gan gwmni eiddo a buddsoddiad, LCP, rhan o M Core, yw'r brif ardal manwerthu yn Nhorfaen. Mae gwefan y cwmni'n dweud i Ganolfan Cwmbrân, yn 2022, groesawu 19.75 miliwn o bobl. Yn ogystal â'r boblogaeth leol, mae'r cyfleusterau'n denu nifer o ymwelwyr o ardal ehangach Gwent a choridor y M4.

Cyn-dref ddiwydiannol Pont-y-pŵl â'i marchnad dan do a'r farchnad awyr agored yw'r aneddiad nesaf fwyaf ac mae yng nghalon y fwrdeistref gyda phoblogaeth o ryw 37,000 o bobl.

Mae gan dref Safle Treftadaeth y Byd, Blaenafon boblogaeth o ryw 6,000 o bobl ac mae yn rhan fwyaf gogleddol y fwrdeistref. Mae Blaenafon yn enwog am amgueddfa lofaol Big Pit a gwaith haearn o'r 18fed ganrif sydd yn y cyflwr gorau o unrhyw rai o'r un math yn Ewrop.

Yn 2022, cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent Asesiadau Lles Lleol ar gyfer pob yn o'r tair tref, ac mae'r rhain ar gael ar eu gwefan

Blaenafon: https://www.gwentpsb.org/wp-content/uploads/2022/03/Final-Version-Blaenavon-Wellbeing-Assessment-WELSH-1.pdf
Pont-y-pŵl: https://www.gwentpsb.org/wp-content/uploads/2022/03/Final-Version-Pontypool-Well-being-Assessment-WELSH-1.pdf
Cwmbrân: https://www.gwentpsb.org/wp-content/uploads/2022/03/Final-Version-Cwmbran-Well-being-Assessment-WELSH-1.pdf

Hefyd, mae toreth o wybodaeth am Dorfaen i'w gweld yn Asesiad Anghenion y Boblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sydd ar gael yn: https://www.bprgwent.cymru/population-needs-assessment

Mae'n cynnwys rhai o'r canfyddiadau allweddol a amlygwyd gan yr Asesiad Anghenion y Boblogaeth sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig penodol a'r camau gweithredu yn y cynllun hwn.

**Oedran**

Dangosodd Cyfrifiad 2021 gynnydd o 16.7 mewn pobl 65 oed a throsodd yn Nhorfaen ers cyfrifiad 2011. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 17.7% ledled Cymru. Dros yr un cyfnod, cafwyd gostyngiad yn Nhorfaen o 2.5% mewn pobl 15 - 64 oed, a gostyngiad o 0.2% mewn plant o dan 15 oed.

Rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf, cynyddodd cyfartaledd (canolrif) oedran Torfaen un flwyddyn, o 41 i 42 oed. Roedd gan yr ardal hon oedran is ar gyfartaledd (canolrif) na Sir Fynwy gyfagos (49 oed) ac roedd ganddi oedran tebyg ar gyfartaledd (canolrif) i Gymru ar y cyfan (42 oed). Yr

oedran cyfartaledd canolrif yw oedran y person yng nghanol y grwp, sy'n golygu bod un hanner y grwp yn iau na'r person hwnnw ac mae'r hanner arall yn hŷn.

Cododd nifer y bobl 65 i 74 oed o ryw 1,800 (cynnydd o 20.9%), tra bod nifer y trigolion rhwng 35 a 49 oed wedi disgyn tua 2,200 (gostyngiad o 12.0%).

Mae adroddiad 'A yw Cymru'n Decach? 2023' yn dweud fod pobl rhwng 64-74 oed a'r rheiny dros 75 oed yn sylweddol llai tebygol o fod â'r rhyngrwyd gartref. Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn hefyd wedi codi'r mater ac wedi galw ar awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod hawliau pobl i gael gwybodaeth trwy ddulliau nad ydynt yn ddigidol yn cael eu parchu.

I fynd ar ôl bodloni anghenion pobl hŷn, mae'r Cyngor yn rhoi adnoddau ar gyfer ymgysylltu â phobl hŷn, cydlynu a chefnogi'n ariannol Tri Fforwm 50+ annibynnol, ym Mlaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân. Mae ymgynghori rheolaidd â'r grwpiau, a gwahoddir iddyn nhw ofyn cwestiynau neu amlygu pryderon am unrhyw wasanaethau cyhoeddus. I frwydro allgau digidol, maen nhw hefyd yn cael ar lafar y wybodaeth mae'r Cyngor yn rhannu ar-lein, ac sydd hefyd yn cael ei argraffu yng nghofnodion eu cyfarfodydd.

Mae bodloni anghenion pobl sydd wedi eu heithrio'n ddigidol, gan gynnwys pobl hŷn, yn ystyriaeth bwysig ac yn cael ei gofnodi yn ein Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf. Cynyddodd cyfran y bobl yn y grwpiau oedran ar ôl ymddeoliad sydd â mynediad at y rhyngrwyd rhwng 2018-2019 a 2021-2022, ond mae llawer sydd dal ddim yn defnyddio. Rydym felly'n parhau i gynnig nifer o ffyrdd o gael gwasanaethau.

**Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2022) yn amlinellu strategaeth ar gyfer Cymru Wrth-hiliol. Mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu heffeithio gan hyn oherwydd eu statws fel grwp nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n cael ei amlinellu yn y cynllun y bydd lleisiau'r cymunedau yma, erbyn 2030, yn cael eu clywed a bydd gweithredu arnynt. Mae'r cynllun gweithredu'n cydnabod "bod llety diogel, diwylliannol briodol yn angenrheidiol er mwyn i unigolion ffynnu mewn rhannau eraill o'u bywydau ac i fynd i'r afael â diffyg darpariaeth safleoedd ac ansawdd gwael llety i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru" ac mae'n ymrwymo i nifer o gamau, gan gynnwys ariannu presennol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ailddrafftio cyfarwyddyd a chomisiynu rhaglen beilot i roi cyngor annibynnol i'r rheiny sydd am ddatblygu safleoedd preifat.

Torfaen sydd a'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr fwyaf ym mhum bwrdeistref Gwent. Yn Hydref 2023, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol Gyfrif Poblogaeth Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig, a nododd 265 o bobl yn Nhorfaen sy'n uniaethu â hunaniaeth Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig. Mae hyn cryn dipyn yn uwch o ran nifer nag a nodwyd gan gyfrifiad 2011 (155).

Yn ehangach, ystyrir ei fod yn debygol na wnaeth nifer o aelwydydd gwblhau'r cyfrifiad - oherwydd eu bod yn byw ar safleoedd neu mewn gwersylloedd heb awdurdod, ac felly, nid oeddynt yn ymddangos mewn cofnodion swyddogol neu oherwydd eu bod yn drwgdybio pwrpas y cyfrifiad. Pan oedd pobl yn derbyn ffurflenni, efallai bod lefelau is na'r cyfartaledd o lythrennedd wedi golygu na wnaeth rhai aelwydydd eu cwblhau, a phan gawsant eu cwblhau

byddai rhai aelwydydd wedi dewis peidio ag ymuniaethu fel Sipsiwn/Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig.

Dylid nodi, y tro diwethaf i'r Cyngor gynnal ei Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, dywedodd 38 allan o 49 a atebodd (yn cynrychioli 154 o aelodau'r gymuned) eu bod yn Romami.

Nododd cyfrif carafanau Sipsiwn a Theithwyr, cyfrif carafanau Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru) bod yna, ar 31 Ionawr 2021, 1,065 o garafanau Sipsiwn a Theithwyr a 139 o safleoedd yng Nghymru, a phedwar o'r rhain yn Nhorfaen. Bwrdeistref sirol gyfagos Casnewydd yw'r safle answyddogol yn aml i deithwyr sy'n teithio i'r dwyrain/gorllewin o'r Iwerddon i Loegr.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd safleoedd awdurdodedig parhaol a safleoedd dros dro, ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys y gymuned Roma, Sipsiwn a Theithwyr i sicrhau llety priodol a digonol yn Nhorfaen a'r rhanbarth ehangach.

Mae gan bobl Sipsiwn, Roma a Theithwyr y deilliannau gwaethaf i unrhyw grwp ethnig ar draws amrywiaeth anferth o feysydd, gan gynnwys addysg, iechyd, cyflogaeth, cyfiawnder troseddol a throseddau casineb. (Tŷ'r Cyffredin, 2019). Canfuwyd fod:

- Cyfraddau marwolaethau babanod hyd at bum gwaith yn uwch ymhlith y grŵp lleiafrifol yma o'u cymharu â'r gyfradd genedlaethol.
- Mae cyfraddau imiwneiddio ymhlith plant Teithwyr yn isel o'u cymharu â gweddill y boblogaeth. Mae rhai'n awgrymu bod Meddygon Teulu'n yn amharod i gofrestru Teithwyr oherwydd eu bod heb gartref sefydlog, sy'n golygu nad oes modd eu cyfrif mewn targedau ac felly, tuag at dâl,
- Mae cyfraddau damweiniau'n uchel ymhlith y boblogaeth Teithwyr a Sipsiwn, sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cyflwr peryglus yn nifer o safleoedd Teithwyr - yn enwedig gan fod safleoedd yn aml yn agos at draffyrdd neu brif ffyrdd, tipiau sbwriel, gweithfeydd carthffosiaeth, rheilffyrdd neu ardaloedd diwydiannol. Mae safonau iechyd a diogelwch yn aml yn wael.
- Mae gan Deithwyr lefelau is o fwydo o'r fron.
- Mae nifer o gyflyrau iechyd yn fwy cyffredin hefyd o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, gan gynnwys y gyfradd camesgoriad, problemau anadlol, arthritis, clefyd cardiofasgiwlar, iselder a chyfraddau marwolaeth mamau.
- Defnyddir alcohol yn aml fel ffordd o ymdopi, ac mae'r defnydd o gyffuriau ymhlith Teithwyr ifanc yn cael ei sôn amdano'n aml ac yn cael ei ofni gan Deithwyr hŷn.
- Mae credoau diwylliannol yn cynnwys ystyried y dylai problemau iechyd (yn enwedig y rheiny ystyrir fel rhai cywilyddus, fel iechyd meddwl gwael neu gamddefnydd sylweddau) gael eu trin gan aelodau'r teulu neu eu cadw yn yr uned deuluol estynedig.
- Mae teithwyr hefyd yn wynebu heriau wrth gael gwasanaethau oherwydd lleoliad y safleoedd (neu oherwydd natur dros dro bod mewn ardal). Mae bod heb drafnidiaeth (yn enwedig i fenywod nad ydynt yn aml yn gallu gyrru) i gyrraedd gwasanaethau yn rheswm arall am y defnydd isel o wasanaethau yn ogystal â lefelau is o lythrennedd iechyd ynglŷn â pha wasanaethau y mae ganddyn nhw hawl i'w defnyddio a sut i'w cael.

Yn gyffredinol, mae gan y cymunedau ddisgwyliadau isel o ran eu hiechyd a disgwyliad einioes. Mae astudiaethau wedi dangos dro ar ôl tro fod Teithwyr yn aml yn byw mewn amgylchiadau

afiach, tra eu bod ar yr un pryd yn defnyddio gwasanaethau iechyd yn llawer llai aml na gweddill y boblogaeth.

Mae Gwasanaeth Addysg Teithwyr Torfaen yn rhoi cefnogaeth yn yr ysgol i gynorthwyo disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr (SRTH) a'u hysgolion. Mae'r tîm yn gweithio ar sail allgymorth i gefnogi disgyblion ar sail anghenion, yn unol ag ymateb graddoledig a matric cefnogaeth Torfaen. Bydd angen allgymorth ar nifer o bobl ifanc SRTh a'u teuluoedd yn ystod cyfnod addysg eu plant. Mae darpariaeth allgymorth yn hanfodol wrth ddatblygu perthnasau ymddiriedus gyda'r gymuned, cyfeirio a gweithio gyda gwasanaethau a darparwyr eraill. Mae gwybodaeth bellach am y cymorth sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyflogi Swyddogion Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr ac mae yna berthynas sefydledig rhwng swyddogion a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr leol.

**Grwpiau Du a Lleiafrifol Ethnig**

Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos, ar draws Cymru, bod niferoedd y trigolion arferol oedd yn uniaethu gyda phob categori grŵp ethnig lefel uchel ac eithrio "Gwyn" wedi cynyddu rhwng 2011 a 2021. Gwelodd Torfaen gynnydd o 2.0% yn 2011 i 2.9% yn 2021.

Rhwng 2011 a 2021:

Cynyddodd canran y bobl yn Nhorfaen a oedd yn ystyried eu bod yn Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu'n Asiaidd Cymreig o 1.1% i 1.3%
Arhosodd canran y bobl yn Nhorfaen a oedd yn ystyried eu bod yn Ddu, Du Prydeinig neu'n Ddu Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd ar 0.2% (dim newid)
Cynyddodd canran y bobl yn Nhorfaen a oedd yn ystyried eu bod yn Grpwiau Cymysg neu Aml-hil o 0.7% i 1.1%
Gostyngodd canran y bobl yn Nhorfaen a oedd yn ystyried eu bod yn Wyn o 98.0% i 97.1%
Cynyddodd canran y bobl yn Nhorfaen a oedd yn ystyried eu bod yn rhan o Grwpiau Ethnig Eraill o 0.1% i 0.3%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021

Canfyddodd Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC) yn 2019-20 fod lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio lleiafrifoedd Gwyn) yn fwyaf tebygol o brofi gwahaniaethau yn y gwaith (28%), o gymharu â grwpiau lleiafrifol Gwyn (21%) a gweithwyr Gwyn Prydeinig (9%).

Mae rhwystrau iaith hefyd yn gallu peri trafferth wrth ymgysylltu â phobl a'u cefnogi. Mae codi ymwybyddiaeth o wasanaethau a chefnogaeth mewn cymunedau yn hanfodol er mwyn gwella lefel y defnydd o gefnogaeth. Pwysleisiwyd hefyd y dylai'r wybodaeth, er ei bod yn ddrud, fod yn hygyrch mewn ardaloedd yn y gymuned a hefyd yn hygyrch mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol.

Cafodd Coronafeirws effaith niweidiol ac anghymesur ar bobl o gymunedau Du a Lleiafrifol Ethnig. Cafwyd ymchwiliad gan y Llywodraeth i ganfod pam fod pobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig i weld yn cael eu heffeithio'n anghymesur ac mae angen gwaith pellach i sicrhau ein bod yn gwella deilliannau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd a lles.

**Ceiswyr Lloches, Ffoaduriaid ac Ymfudwyr**

Tan 2001, penderfynodd nifer cymharol fach o geiswyr lloches a ffoaduriaid ymgartrefu yng Nghymru o gymharu â rai rhannau o'r DU. Cynyddodd nifer y ceiswyr lloches a ffoaduriaid pan ddaeth Cymru'n ardal gwasgariad. Gwelodd nifer y ceisiadau am loches yn 2016 gynnydd o 8% o gymharu â'r flwyddyn gynt. Mae darpariaeth gwasanaethau i ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches gan sefydliadau y tu allan i'r llywodraeth wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar iechyd a lles pobl. Mae diffyg arian cyhoeddus a materion diogelu fel trais ar sail anrhydedd a masnachu pobl yn themau allweddol sy'n dod i'r amlwg i ddarparwyr gwasanaethau. I ddefnyddwyr gwasanaeth mae diffyg neu brinder gwybodaeth a chefnogaeth tenantiaethau i'w gweld fel themâu sy'n dod i'r amlwg. Mae adroddiadau amrywiol yn cydnabod bod gwendidau yn y systemau casglu data ar gyfer niferoedd ymfudwyr, ac mae hyn yn cyfyngu ar raddau eu dibynadwyedd. Does dim diffiniad a gytunir ar gyfer 'ymfudwyr' sy'n llesteirio ymhellach casglu data dibynadwy.

Canfu cyfrifiad 2011 mai'r deg uchaf o wledydd yn ôl gwreiddiau pobl a anwyd y tu allan i'r DU, yn ôl trefn gyda'r niferoedd uchaf yn gyntaf oedd: Pacistan, Yr India, Bangladesh, Gwlad Pwyl, Y Philipinau, Yr Almaen, De Affrica, Nigeria, Yr Eidal a Simbabwe. Mae adborth gan Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dangos bod gan bobl o gefndir Roma rai anghenion penodol iawn ar ben y rheiny sydd gan y boblogaeth ymfudwyr newydd yn gyffredinol.

Mae cyfathrebu da gydag ymfudwyr yn hanfodol. Mae penderfynu iaith a addasrwydd fformat (e.e., ysgrifenedig, clywedol, wyneb yn wyneb, ffôn) a'r gefnogaeth sydd ar gael, fel eiriolaeth a chyfieithu, yn elfennau hanfodol er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol. Bydd hyn yn ei dro o fudd i gyllidebau a gofal cwsmeriaid gan ei fod yn cyfrannu at benderfynu ar y gwasanaeth priodol. Hefyd, mae materion eraill a amlygwyd ar gyfer ymfudwyr a cheiswyr lloches yn cynnwys yr angen am fwy o eiriolaeth a chefnogaeth nofiol i ymfudwyr, diffyg dull strategol o ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau i ymfudwyr newydd a diffyg cydlynu rhwng gwasanaethau i ymfudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

**Y gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Cwiar a Chwestiynu (LHDTC+)**

Nododd y papur gwyn iechyd cyhoeddus 'Healthy Lives, Healthy People' iechyd meddwl gwael, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, defnydd problematig o gyffuriau ac alcohol ac ysmygu fel y prif faterion iechyd cyhoeddus sy'n wynebu'r DU. Mae pob un o'r rhain yn effeithio ar y boblogaeth LHDTh mewn ffordd anghymesur:

- Mae defnydd cyffuriau anghyfreithlon ymhlith pobl LHD o leiaf 8 gwaith yn fwy na'r boblogaeth gyffredinol
- Mae tua 25% o bobl LHD yn nodi lefel o ddibyniaeth ar alcohol
- Mae bron i hanner y boblogaeth LHDT yn ysmygu, o gymharu â chwarter eu cyfoedion heterorywiol
- Mae pobl LHD mewn mwy o berygl o anhwylder meddyliol, meddwl am hunanladdiad, camddefnydd sylweddau a hunan-niwed
- Dywedodd 41% o bobl draws eu bod wedi ceisio lladd eu hunain o gymharu ag 1.6% o'r boblogaeth gyffredinol

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dweud fod 2.65% o bobl 16 oed a throsodd yn Ardaloedd Awdurdod Lleol Torfaen yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol, neu arall (LHD+) ac mae 90.39% y syth neu'n heterorywiol. Ni atebodd 6.97% y cwestiwn.

Mewn blynyddoedd diweddar, ychydig iawn o weledēdd sydd wedi bod o'r gymuned LHDTC+ yn Nhorfaen. Bydd 2024 yn gweld yn digwyddiad Pride Torfaen cyntaf a gynhelir gan yr elusen Club F.O.D.- sy'n ceisio mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol pobl LHDTC. Yn ystod cyfarfod y cyngor llawn ym Mehefin 2023, rhoddodd cynghorwyr Torfaen gefnogaeth wleidyddol i'r syniad o ddigwyddiadau Pride yn Nhorfaen.

**Anabledd yn Nhorfaen**

Mae bron i 1 ym mhob 4 o bobl yn Nhorfaen yn byw ag anabledd. Yn 2021, roedd ychydig dros un o bob naw o bobl (11.2%) yn anbal ac yn gyfyngedig iawn eu gallu, tra bod 11.9% o drigolion Torfaen yn anabl ac ychydig yn gyfyngedig eu gallu. Cynyddodd y ffigwr yma o 11.4% yn 2011. Cyfran poblogaeth Torfaen nad oedd yn anabl oedd 76.9%

Mae'r rhain yn gyfrannau wedi ei safoni o ran oedran, gan alluogi cymariaethau rhwng poblogaethau dros amser ac ar draws daearyddiaeth, gan eu bod yn cyfrif gwahaniaethau ym maint a strwythur oedran y boblogaeth.

Ers 2020, mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos â Fforwm Mynediad Torfaen, sefydliad pobl anabl. Cynhelir cyfarfodydd rheoliad pob dau fis sy'n cael eu mynychu gan Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor i drafod materion sy'n effeithio ar bobl anabl yn Nhorfaen. Mae nifer o fudiadau trydydd sector sy'n cynrychioli ac yn cefnogi pobl anabl hefyd yn mynychu. Mae'r grwp wedi cefnogi'r Cyngor gydag adolygiadau gorsafoedd pleidleisio, llwybrau teithio llesol, gosod ymylon palmentydd isel, dyluniadau adfywio, ac maen nhw hefyd wedi gweithio gyda'n Tîm Datblygu Chwaraeon ac Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen i wella mynediad i weithgareddau ffitrwydd i bobl anabl. Mae Anabledd Cymru wedi gwneud sylw ar y berthynas ac wedi dweud wrth y Cadeirydd eu bod yn gweld hyn fel arfer penigamp.

**Crefydd yn Nhorfaen**

Yn 2021, dewisodd 50.8% o drigolion Torfaen "Dim crefydd", a dyna'r ymateb mwyaf cyffredin yn yr ardal awdurdod lleol (i fyny o 35.8% yn 2011). Oherwydd fod cwestiwn am gred grefyddol yn wirfoddol ac mae cyfraddau ymateb amrywiol iddo, mae angen gofal wrth gymharu ffigyrau rhwng ardaloedd gwahanol neu rhwng cyfrifiadau.

Ledled Cymru, cynyddodd canran y bobl oedd yn disgrifio'u hunain fel pobl "Dim crefydd" 32.1% i 46.5%.

Yn 2021, disgrifiodd 41.5% o bobl yn Nhorfaen eu hunain fel Cristnogion (i lawr o 55.4%), tra bod 6.1% ddim yn nodi eu crefydd (i lawr o 7.6% y ddegawd cynt).

Mae yna nifer o ffactorau sy'n gallu achosi newidiadau i broffil crefyddol ardal, fel newid yn y strwythur oedran neu drigolion yn symud i gael gwaith neu addysg. Gall newidiadau hefyd gael eu hachosi gan wahaniaethau yn y ffordd y mae unigolion yn dewis uniaethu rhwng cyfrifiadau.

Cysylltiad crefyddol yw'r grefydd y mae rhywun yn cysylltu neu'n uniaethu â hi, yn hytrach na'u credoau neu arferion crefyddol.

Cynyddodd canran y bobl yn Nhorfaen a oedd yn uniaethu â chrefyddau eraill rhwng 2011 a 2021:

- Bwdhydd: Cynnydd o 0.2% yn 2011 i 0.3% yn 2021
- Hindŵ: 0.3% (dim newid)
- Iddewiaeth: 0.0% (dim newid)
- Mwslimaidd: Cynnydd o 0.3% yn 2011 i 0.4% yn 2021
- Sîc: 0.1% (dim newid)
- Eraill: Cynnydd o 0.3% yn 2011 i 0.5% yn 2021

**Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

Deddf Cydraddoldeb - Dyletswyddau Penodol Cymreig

Mae dyletswydd cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (adnabyddir hefyd fel Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) yn dweud bod rhaid i'r rheiny sydd yn destun y ddyletswydd ystyried yr angen i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddiad, erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r sawl nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r sawl nad ydynt.

I gefnogi'r ddyletswydd gyffredinol, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatau gweithredu dyletswyddau penodol. Mae'r dyletswyddau penodol yn rymoedd datganoledig, ac mae hyn wedi arwain at osod dyletswyddau penodol gwahanol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Yn Lloegr mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) 2011 yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a gwybodaeth i ddangos cydymffurfiad â'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol.

Yng Nghymru, mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynd ymhellach ac mae'n cynnwys gofynion ymgysylltiad (Rheoliad 5) ac asesiadau effaith ar gydraddoldeb (Rheoliad 8) nad ydynt yn bod yn Lloegr.

Mae Rheoliad 5 *Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011* yn dweud:

*Pan fo unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gydymffurfio â'r darpariaethau ymgysylltu wrth gyflawni unrhyw weithgaredd (gweler, er enghraifft, rheoliad 4(1)(a)), mae cydymffurfio â'r darpariaethau hynny'n golygu bod yr awdurdod wrth gyflawni'r gweithgaredd hwnnw*

a. *yn gorfod cynnwys unrhyw bersonau y mae'r awdurdod yn credu*

1. *eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig; a*

2. *bod ganddynt fuddiant yn y modd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau*

b. *yn cael cynnwys unrhyw bersonau eraill y mae'r awdurdod yn credu eu bod yn briodol;*

c. *yn cael ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'r awdurdod yn credu eu bod yn briodol*

*(3) Wrth ddod i benderfyniad o dan baragraff (2)(b) neu (c) rhaid i'r awdurdod roi sylw i'r angen i gynnwys neu i ymgynghori (yn ôl y digwydd), i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, â phersonau—*

a. *sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig;a*
b. *sydd â buddiant yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau.*

Mae Rheoliad 8 *Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011* yn dweud:

*a.* i asesu effaith debygol ei bolisïau a'i arferion arfaethedig ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol;

b. *i asesu effaith*

1. *unrhyw bolisi neu arfer y mae'r awdurdod wedi penderfynu ei adolygu,*

2. *unrhyw ddiwygiad y mae'r awdurdod yn bwriadu ei wneud i bolisi neu arfer, ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd honno;*

c. *i fonitro effaith ei bolisïau a'i arferion ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd honnoac*

*(ch) i gyhoeddi adroddiadau mewn cysylltiad ag unrhyw asesiad*

*i) y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) neu (b);a*

ii *sy'n dangos bod yr effaith neu'r effaith debygol (yn ôl y digwydd) ar allu'r awdurdod i gydymffurfio â'r ddyletswydd honno yn sylweddol.*

Wrth feddwl ynglyn â sut i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheiny nad ydyny, mae angen i ni:

- Ddileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol ac sydd wedi eu cysylltu â'r nodwedd honno.
- Bodloni anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt ei ei rhannu.
- Annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall ble mae cyfranogiad gan bobl felly yn anghymesur o isel.
- Mae'n rhaid i ni feddwl yn arbennig ynglŷn â sut y bydd yn mynd i'r afael â rhagfarn ac yn hyrwyddo dealltwriaeth.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru reoliadau a oedd yn cyflwyno'r Dyletswyddau Penodol ar gyfer Cymru ym Mawrth 2011, roedd y rhain yn pennu'r camau gweithredu mae'n rhaid i'r Cyngor eu cymryd er mwyn cydymffurfio ac maen nhw'n cynnwys y meysydd canlynol:

- Gosod Amcanion Cydraddoldeb a Chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Sicrhau ei fod yn ymgysylltu â phobl sydd â diddordeb mewn sut mae penderfyniadau'r Cyngor yn effeithio arnyn nhw
- Casglu a chyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i gydymffurfiad â'r Ddyletswydd Gyffredinol
- Gwneud Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb a chyhoeddi'r canlyniadau os nodir effaith sylweddol
- Cyhoeddi gwybodaeth monitro cyflogaeth pob blwyddyn
- Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddyletswydd Cyffredinol ymhlith ei gyflogeion a defnyddio ei weithdrefnau asesu perfformiad i nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddiant ei gyflogeion mewn perthynas â'r Dyletswyddau Cyffredinol
- Gosod amcan cydradoldeb cyflog ble mae yna wahaniaeth ar sail rhywedd
- Meddwl am gynnwys amodau sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Gyffredinol yn ei brosesau caffael.

**Y Nodweddion Gwarchodedig**

Pwy sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

Mae'n groes i'r gyfraith gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd nodwedd warchodedig. Y naw nodwedd warchodedig yw:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhywedd
- cyfeiriadedd rhywiol

**Diffiniad o'r termau yma o wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:**

**Oedran**

Person sy'n perthyn i oedran penodol (er enghraifft pobl 32 oed) neu ystod o oedrannau (er enghraifft pobl 18 i 30 oed).

**Anabledd**

Mae gan berson anabledd os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r person hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

**Ailbennu rhywedd**

Pan fo person yn ymgymryd â, neu'r bwriad ymgymryd â phroses o drosglwyddo o un rhyw i'r llall.

**Priodas a phartneriaeth sifil**

Mae priodas yn undeb rhwng dyn a menyw neu rhwng cwpl o'r un rhyw.

Gall cyplau o'r un rhyw hefyd gael eu perthnasoedd wedi'u cydnabod yn gyfreithiol fel 'partneriaethau sifil'. Rhaid peidio â thrin partneriaid sifil yn llai ffafriol na pharau priod (ac eithrio lle caniateir hynny gan y Ddeddf Cydraddoldeb).

**Beichiogrwydd a mamolaeth**

Beichiogrwydd yw'r cyflwr o fod yn feichiog neu'n disgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl yr enedigaeth, ac mae'n gysylltiedig ag absenoldeb mamolaeth yn y cyd-destun cyflogaeth. Yn y cyd-destun heblaw gwaith, mae amddiffyniad rhag gwahaniaethu ar sail mamolaeth am 26 wythnos ar ôl rhoi genedigaeth, ac mae hyn yn cynnwys trin menyw yn anffafriol oherwydd ei bod yn bwydo ar y fron.

**Hil**

Mae hil yn grŵp o bobl a ddiffinnir gan eu lliw, cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), ethnigrwydd neu darddiad cenedlaethol. Gall grŵp hiliol gynnwys mwy nag un grŵp hiliol gwahanol, fel Du Prydeinig.

**Crefydd neu gred**

Mae crefydd yn cyfeirio at unrhyw grefydd, gan gynnwys diffyg crefydd. Mae cred yn cyfeirio at unrhyw gred grefyddol neu athronyddol ac yn cynnwys diffyg cred. Yn gyffredinol, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau bywyd neu'r ffordd yr ydych yn byw er mwyn iddi gael ei chynnwys yn y diffiniad.

**Rhywedd**

Dyn neu fenyw

**Cyfeiriadedd rhywiol**

P'un a yw atyniad rhywiol person tuag at ei ryw ei hun, y rhyw arall neu'r ddau ryw.


Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd ynghylch gwahaniaethau mewn perthynas â'r nodweddion gwarchodedig yma ar eu gwefan.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ymwreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yng nghyflenwad ei holl wasanaethau a gweithgareddau.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd at y Cyngor i ganolbwyntio ar yr heriau y byddwn ni a'n partneriad mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu hwynebu wrth fodloni anghenion cymunedau a sicrhau bod pob polisi strategol yn cydnabod yn llawn y cysylltiadau sy'n bod rhwng cyfiawnder cymdeithasol, llewyrch economaidd a rheolaeth adnoddau natuiol, nawr ac yn y tymor hir. Bwriad y Ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a rhoi cyfle i ni gynyddu cydraddoldeb a chynhwysiant mewn ffordd fwy

integredig a strategol. Mae'r cynllun hwn yn adlewyrchu ac wedi ei gynllunio er mwyn cyfrannu at y nodau hynny.




Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn gofyn i wasanaethau cyhoeddus unigol ddefnyddio'r pum dull o weithio:

1. Tymor Hir - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i hefyd ddiwallu anghenion hirdymor.

2. Atal - Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

3. Integreiddio - Ystyried sut y gallai amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

4. Cydweithio - Cydweithio gydag unrhyw berson arall (neu rannau arall o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.

5. Cynnwys - pwysigrwydd cynnwys pobl gyda diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Mae'r pum ffordd o weithio wedi cael eu defnyddio i ffurfio Amcanion Cydraddoldeb Strategol y Cyngor.

**Gwent – Rhanbarth Marmot**

Yn 2022, ymrwymodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i Went fod yn Rhanbarth Marmot. Roedd hyn yn goylgu mabwysiadau Egwyddorion Marmot, a ddatblygwyd gan yr Athro Syr Michael Marmot, fel ffordd o gael dull cyson, ar draws Gwent, tuag at wella cydraddoldeb.

Fel un o'r pum awdurdod lleol ar y BGC, mae Torfaen bellach wedi adolygu ein Cynllun Sirol 2022-2027 trwy gyd-destun Egwyddorion Marmot ac wedi eu hystyried yn natblygiad a chamau gweithredu'r cynllun hwn.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cefnogi nifer o Egwyddorion Marmot, yn fwyaf amlwg:

- Galluogi pob plentyn, unigolyn ifanc ac oedolyn i uchafu eu gallu ac i gael rheolaeth dros eu bywydau
- Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb
- Sicrhau safon byw iach i bawb
- Creu lleoedd a chymunedau iach a chynaliadwy a'u datblygu
- Mynd i'r afael â hiliaeth a gwahaniaethu a'u canlyniadau

Mae rhagor o wybodaeth am Egwyddorion Marmot a rhaglen Creu Gwent Decach i'w gweld ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent: https://www.gwentpsb.org/cy/rhanbarth-marmot-gwent/cefndir/

**Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011**

Disodlodd Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 Ddeddf Yr Iaith Gymraeg 1993 ac, fel rhan o'r ddeddfwriaeth, yng Nghymru mae gan yr Iaith Gymraeg statws cyfreithiol cydradd â'r iaith Saesneg ac nid yw i gael ei thrin yn llai ffafriol

Rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â chyfres o Safonau’r Iaith Gymraeg a gyhoeddodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg trwy Hysbysiad Cydymffurfio i'r Cyngor. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn dangos pa rai o'i 176 o safonau yn y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Cyngor, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

Nid yw materion yr Iaith Gymraeg yn dod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ond mae cyfres o Safonau'n bod o dan Fesur Yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, mae cydnabyddiaeth ers tro bod agendâu polisi cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg yn cyd-fynd ac yn goleuo'i gilydd. Ategir hyn ymhellach gan y nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. (Cymru) 2015 – Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu.

Bydd datblygiadau'r Iaith Gymraeg yn cael eu gwneud yn gorfforaethol yn unol ag amcanion y Mesur, a:

- gadarnhaodd statws swyddogol yr Iaith Gymraeg;
- creodd system newydd o osod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg;
- creodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg gyda phwerau gorfodi cryf i warchod hawliau siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg;
- sefydlodd Dribiwnlys yr Iaith Gymraeg;
- rhoddodd i unigolion a chyrff yr hawl i apelio penderfyniadau a gafodd eu gwneud mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg;
- creodd Gyngor Partneriaeth Yr Iaith Gymraeg i roi cyngor i'r Llywodraeth ynglŷn â'u strategaeth mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg;
- ganiataodd ymchwiliad swyddogol gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg ble mae yna ymdrech i ymyrryd â rhyddid siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith gyda'i gilydd.

Mae pob un o'r saith nod llesiant yn ffurfio rhan allweddol o sut ddylai Cymru fod, ac er bod y saith nod yn bwysig o ran eu hunain, ni ddylid edrych arnyn nhw'n unigol oherwydd eu bod wedi eu cysylltu â'i gilydd. Os edrychwn ni ar y saith nod o safbwynt yr Iaith Gymraeg, gallwn weld sut mae'r Iaith Gymraeg yn rhan o, ac yn chwarae rhan ym mhob agwedd o addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, cydlyniant cymunedol, yr economi a mwy.

Roedd cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn 2018, a alwyd yn Safonau yn ymwneud â hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn cynnwys darlun yn dangos sut mae'r saith nod llesiant yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Rydym wedi cynnwys amcan i barhau i fonitro ein cydymffurfiad â'n dyletswyddau statudol o ran yr Iaith Gymraeg.

**Dyletswydd gymdeithasol-economiaidd**

Ar 31 Mawrth 2021 daeth y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd i rym yng Nghymru. Mae'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd yn gofyn ein bod ni, fel sefydliad, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau strategol fel penderfynu blaenoriaethau a gosod amcanion, yn ystyried sut gall ein penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais cymdeithasol-economiaidd.

Nod y ddyletswydd ar y cyfan yw cyflenwi deilliannau gwell i'r rheiny sy'n profi anfantais cymdeithasol-economaidd. Bydd y Ddyletswydd Gymdeithasol-economiaidd yn cefnogi hyn trwy sicrhau bod y rheiny sy'n cymryd penderfyniadau strategol:

- yn ystyried tystiolaeth ac effaith bosibl
- trwy ymgynghoriad ac ymgysylltiad
- yn deall barn ac anghenion y rheiny sy'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad, yn enwedig y rheiny sy'n dioddef anfantais cymdeithasol-economaidd.
- yn croesawu her a chraffu
- yn gyrru newid yn y ffordd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r ffordd y mae y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau'n gweithredu.

Diweddarodd y Cyngor broses ein Hasesiad Effaith Integredig Integredig i gynnwys y Ddyletswydd gymdeithasol-economiaidd pan ddaeth i rym.

**Argymhellion**

Adroddiad **'A yw Cymru'n Decach?2023'**, y Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yw'r adolygiad diweddaraf a'r cyntaf ers Brexit, pandemig COVID-19 a dechrau'r argyfwng costau byw .

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg ar sail tystiolaeth o gynnydd mewn cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae wedi ei drefnu yn ôl y nawr nodwedd warchodedig yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae pob un yn edrych ar y themâu canlynol yn fwy manwl

- Addysg
- Gwaith
- Safonau Byw
- Iechyd
- Cyfiawnder a Diogelwch Personol

- Cyfranogiad

Mae'r adroddiad yn cynnwys pennod yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth allweddol, gan gynnyws hawliau dynol, statws cymdeithasol-economaidd a'r Iaith Gymraeg.

Cyhoeddwyd yr adroddiad yn Nhachwedd 2023, yn ystod ein cyfnod o 12 wythnos o ymgynghoriad ar yr Amcanion Cydraddoldeb Drafft. Mae wedi ei ystyried yn drylwyr a dylanwadodd yn sylweddol ar y gweithrediadau yn y cynllun hwn.

**Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

Yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, dywed Llywodraeth Cymru:

"Ar ddechrau 2020, dechreuodd Llywodraeth Cymru weithio ar gynllun gweithredu ar gyfer cydraddoldeb hil, ar ôl galwadau gan Fforwm Hil Cymru, a sefydliadau eraill ar lawr gwlad Fodd bynnag, bron ar unwaith, bu'n rhaid i'r gwaith ddod i ben oherwydd pandemig COVID-19. Wedyn, ym mis Mai 2020, syfrdanwyd pobl ledled y byd gan lofruddiaeth George Floyd Taflodd y ddau ddigwyddiad oleuni ar yr hiliaeth systemig a wynebir gan bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill. Gwnaethant danlinellu'r angen i weithredu ar fyrder.

Drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynllun, clywsom neges glir ynglŷn â'r diffyg ymddiriedaeth a deimlir gan lawer o bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, o ran a fydd cyrff cyhoeddus yn gorfodi eu hawliau – hawliau cyfreithiol – ond hawliau nad ydynt yn cael fawr ddim effaith wirioneddol ar eu bywydau yn aml. Yn y cynllun newydd hwn, rydym yn amlinellu sut rydym wedi datblygu camau gweithredu ac iddynt fwy o ffocws, er mwyn ein helpu i wneud y newidiadau angenrheidiol, ac unioni systemau sydd wedi torri."

Mae Cyngor Torfaen yn cefnogi'n llawn Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'i amcan ac rydym wedi ymwreiddio camau perthnasol o fewn i'n hamcanion cydraddoldeb er mwyn sicrhau ein bod ni'n chwarae ein rhan wrth gyrraedd gobeithion y cynllun.

**Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru**

Yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru, dywed Llywodraeth Cymru:

"Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTC+. Mae'n nod uchelgeisiol, ond credwn y gallwn gefnogi holl bobl LHDTC+ Cymru i fyw eu bywydau i'r eithaf: i fod yn iach, yn hapus, a theimlo'n ddiogel.

Fel llywodraeth, safwn gyda'n cymunedau LHDTC+. Dyna pam mae hawliau LHDTC+ wedi'u hymgorffori yn ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu (Llywodraeth Cymru 2021a), yn elfen allweddol o'r Cytundeb Cydweithio (Llywodraeth Cymru 2021b) â Phlaid Cymru, a pham rydym wedi datblygu'r Cynllun Gweithredu uchelgeisiol hwn. Ein nod, drwy'r Cynllun hwn, yw dangos ein hymrwymiad clir i barchu, diogelu a chyflawni hawliau dynol holl bobl LHDTC+ Cymru (OHCHR 2022a).

Bydd y Cynllun hwn yn gweithredu fel y fframwaith ar gyfer datblygu polisi LHDTC+ yn y llywodraeth a chyda'n partneriaid. Mae'n nodi camau pendant y byddwn yn eu cymryd i gryfhau cydraddoldeb i bobl LHDTC+, herio gwahaniaethu, a chreu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn ddiogel i fyw a charu yn ddiffuant, yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain."

Mae Cyngor Torfaen yn cefnogi'n llawn Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru a'i amcan ac rydym wedi ymwreiddio camau perthnasol o fewn i'n hamcanion cydraddoldeb er mwyn sichrau ein bod ni'n chwarae ein rhan wrth gyrraedd gobeithion y cynllun.

## Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol 2024 – 2028

Isod mae ein 6 Amcan Cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod yma o bedair blynedd:

**1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn darparu ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal am gyflogaeth ac mae ganddo weithlu sy'n parchu hawliau pobl ac sy'n deall pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**

**2. Deall hygyrchedd ein gwasanaethau, adeiladau, amgylcheddau adeiledig a mannau gwyrdd a chymryd camau i ddileu unrhyw anfanteision neu rhwystrau sy'n ei gwneud yn anodd i rai pobl gael yr un cyfleoedd â phawb arall**.

**3. Hyrwyddo a hwyluso cymunedau diogel, cynhwysol a chydlynus**

**4. Chwarae ein rhan wrth gyflenwi uchelgeisiau strategaethau a chynlluniau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+**

**5. Cynnwys pobl a chymunedau mewn materion sy'n bwysig iddyn nhw a'r penderfyniadau rydym yn eu cymryd**

**6. Monitro'n effeithiol ein cydymffurfiad â'n dyletswyddau statudol cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg**

### Ymgynghoriad ar yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2024 – 2028

Dechreuodd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd yn Hydref 2023 ac aeth tan 15fed Ionawr 2024.

Cynhyrchwyd dogfennau'r ymgynghoriad yn Gymraeg a Saesneg, roeddynt ar gael fel arolwg ar-lein ar wefan Cymerwch Ran y Cyngor ac fel copiau caled mewn fersiynau cyffredin a Hawdd eu Darllen. Rhoddwyd y rhain i amrywiaeth o grwpiau ac mewn lleoliadau cymunedol.

Atebodd amrywiaeth o grwpiau a mudiadau lleol, gan gynnwys aelodau o'r tri Fforwm 50+ yn Nhorfaen a'r mudiad i bobl anabl, Fforwm Mynediad Torfaen. Cysylltwyd â changen Torfaen o'r elusen LHDTC+ Club F.O.D am ymateb hefyd.

Cafwyd 111 ymateb i'r ymgynghoriad.

Roedd 60.4% o'r rheiny a ymatebodd yn fenywiadd, roedd 27.7% yn wrywaidd ac roedd yn well gan 11.9% beidio â dweud.

Roedd 59.6% o'r rheiny a ymatebodd yn 50 oed neu'n hŷn.

Dywedodd 9.5% o'r rheiny a ymatebodd bod eu hunaniaeth yn un LHDTC+. Roedd 1 person a ymatebodd yn uniaeth â hunaniaeth anneuaidd. Dywedodd 2 nad yw'r rhywedd y maent yn uniaethu â hi yr un â'r rhyw a gofnodwyd ar adeg eu geni.

Roedd union 50% o'r rhai a atebodd i ddweud a oedden nhw'n briod neu mewn partneriaeth sifil ai peidio, yn dweud eu bod.

Dywedodd 43.6% o ymatebwyr fod ganddyn nhw gyflyrau iechyd meddwl corfforol neu feddyliol sydd wedi para neu fe ddisgwylir iddyn nhw bara 12 mis neu fwy. Dywedodd 41.8% nad oes ganddynt.

Dywedodd 20.4% o ymatebwyr fod eu cyflyrau neu salwch yn lleihau eu gallu i gyflawni gweithgareddau ddydd i ddydd rhywfaint. Dywedodd 19.4% o ymatebwyr fod eu cyflyrau neu sawlch yn lleihau eu gallu i gyflawni gweithgareddau ddydd i ddydd llawer.

O'r mathau o anabledd, anabledd corfforol neu nam symudedd oedd yr ateb a ddewiswyd amlaf. Dywedodd 6 o ymatebwyr fod ganddyn nhw nam ar eu clyw a dywedodd 2 fod ganddyn nhw nam ar y golwg.

Roedd 4.5% o ymatebwyr yn uniaethu â'r grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig.

Roedd 42.2% o ymatebwyr yn ystyried eu hunain yn Gristnogion. Dywedodd 39.2% nad oedd ganddyn nhw grefydd. Roedd 1 ymatebwr yn Fwdhydd ac 1 yn Iddewig. Roedd 5.9% yn 'arall'. Rhoddwyd Mwslim, Sîc, Hindŵ a Dyneiddiaeth fel opsiynau ond nid oedd neb a ymatebodd yn dweud eu bod yn uniaethu â'r crefyddau hynny.

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedden nhw'n 'cytuno', yn 'anghytuno' neu 'ddim yn siŵr' am bob amcan yn ei dro. Cynhwyswyd nifer o gwestiynau'n annog atebion 'ysgrifennu' hefyd er mwyn cael rhesymu ac awgrymiadau. Dangosodd yr ymgynghoriad gefnogaeth eang i'r amcanion cydraddoldeb arfaethedig, gyda niferoedd yn cytuno â'r amcanion arfaethedig yn amrywio o 54.1% i 78.2% o ymatebwyr.

Mae geiriad Amcan 1 ac Amcan 6 wedi eu newid i adlewyrchu sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan roi gwelliannau adeiladol.

O ganlyniad i'r ymateb i ddrafft Amcan 1, rydym wedi ychwanegu'r geiriau 'a hyrwyddo' i'r amcan terfynol yma, gan ein bod ni'n cytuno gyda phwysigrwydd cyfathrebu hyn.

O ganlyniad i'r ymateb i ddrafft Amcan 6, rydym wedi ail-ystyried yr amcan yma ac wedi newid y geiriau i roi mwy o sylw ar fonitro effeithiol o'n cydymffurfiad â'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Rydym yn credu bod cadw amcan yn y ffurf yma'n ddefnyddiol fel y gall darllenwyr yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, gan gynnwys Aelodau Etholedig a'r cyhoedd, weld nifer y cwynion a gallan nhw gadw hyder yn ein perfformiad a'n tryloywder.

**Sut y byddwn yn cyflenwi ac yn monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol?**

Bydd y camau gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael eu cyflenwi trwy Gynlluniau Gwasanaeth.

Mae Cynlluniau Gwasanaeth cynhwysfawr yn cyflwyno'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob maes gwasanaeth yn y Cyngor, ac yn amlinellu'r hyn y byddan nhw'n ei gyflawni. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn adrodd cynnydd i'w Cyfarwyddwr Strategol pob chwarter.

Yn ogystal â chynorthwyo'r gwasanaeth gyda monitro cynnydd yn erbyn eu blaenoriaethau, Mae Cynlluniau Gwasanaeth hefyd:

- yn cefnogi cyflenwi blaenoriaethau Cynllun Sirol y Cyngor
- yn dangos sut mae'r gwasanaeth yn cyd-fynd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- yn rhoi fframwaith i sicrhau bod yna ymdriniaeth o'r blaenoriaethau sy'n codi o Asesiad Corfforaethol y Cyngor
- yn hwyluso cydlynu strategaethau trawsbynciol etc.

Mae'n fanteisiol cynnwys y camau a fydd yn cyflenwi ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol mewn Cynlluniau Gwasanaeth ac mae'n sicrhau bod blaenoriaethai cydraddoldeb yn cael eu hymwreiddio a'u bod yn y brif ffrwd trwy gydol cyflenwad y gwasanaeth.

Mae'r Cynlluniau Gwasanaeth i gyd yn cael eu monitro gan Bennaeth y Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwyr Strategol fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor.

**Cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol**

Prif bwrpas yr Adroddiad Monitro Cydradoldeb Blynyddol yw cyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor wrth gyflawni'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol, sy'n cynnwys y cynnydd wrth gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb. Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gofyn i bob awdurdod cyhoeddus sy'n dod o dan y dyletswyddau penodol yng Nghymru gyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol erbyn 31ain Mawrth pob blwyddyn.

Mae'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn cyn ei gyhoeddi, gan roi cyfle i Aelodau Etholedig weld y cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu.

**Cydraddoldeb a Chaffael**

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, pan fo sefydliadau sector cyhoeddus yn caffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill, mae'n rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- ystyried a fyddai'n briodol i'r meini prawf dyrannu ar gyfer y cytundeb hwnnw gynnwys ystyriaethau i helpu i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol
- ystyried a fyddai'n briodol mynnu ar amodau mewn perthynas â pherfformio'r cytundeb i helpu i gyrraedd amcanion y ddyletswydd gyffredinol.

Wrth ddatblygu amgylchedd masnachol lleol cefnogol ble gall y Cyngor ddadlau dros hyrwyddo mwy o gydraddoldeb yng ngweithgareddau a gweithredu sefydliadau eraill y mae'n gweithio â nhw. Fel rhan o'r broses gaffael, bydd llinell ychwanegol o ystyriaeth ar gyfer tendrau yn cael ei datblygu a fydd yn ceisio amlygu meysydd ble gall sefydliadau mewn gwelliannau graddol sy'n gallu gwella'u perfformiad ar faterion cydraddoldeb.

**ATODIAD**

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 - 2028

# DRAFFT CYNLLUN GWEITHREDU

**SYLWCH: Bydd cynllun gweithredu terfynol yn rhoi manylion mesurau ac amserlenni a gadarnhawyd yn cael ei gyhoeddi erbyn Medi 2024**

| **Amcan 1 - Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn darparu ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal am gyflogaeth ac mae ganddo weithlu sy'n parchu hawliau pobl ac sy'n deall pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** | | |
|---|---|---|
| Nodweddion Gwarchodedig: Pob un | | |
| Meysydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: gwaith, safonau byw, iechyd, cyfiawnder a chyfranogiad. | | |
| | Camau gweithredu | Cynllun Gwasanaeth |
| 1.1 | Sicrhau bod staff yn gallu cael, ac yn derbyn hyfforddiant mewn, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. | AD |
| 1.2 | Sicrhau bod y staff i gyd sy'n ymwneud â phenderfyniadau recriwtio wedi cwblhau hyfforddiant ar arferion recriwtio teg. | AD |
| 1.3 | Sefydlu gwaelodlin o ddata recriwtio ac asesu amrywiaeth mewn ymgeiswyr am swyddi a'r rheiny sy'n cael eu cyflogi i ddeall pa ymyraethau pellach y mae eu hangen. | AD |
| 1.4 | Sicrhau bod prosesau i daclo bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu yn y gweithle mewn perthynas â grwpiau gwarchodedig yn cael eu cyfleu i bawb. | AD |
| 1.5 | Cyflwyno cyfarwyddyd trosglwyddo yn y gwaith. | AD |
| 1.6 | Ymgymryd ag archwiliad tâl ar sail rhywedd, gan sicrhau bod y strwythur cyflog a graddio'n cefnogi trefniadau cyflog teg, cydradd a thryloyw. | AD |
| 1.7 | Ymchwilio i a gweithredu camau i annog cynrychiolaeth amrywiol ymhlith Aelodau Etholedig. | Gwasanaethau Democrataidd |

| **Amcan 2 - Deall hygyrchedd ein gwasanaethau, adeiladau, amgylcheddau adeiledig a mannau gwyrdd a chymryd camau i ddileu unrhyw anfanteision neu rhwystrau sy'n ei gwneud yn anodd i rai pobl gael yr un cyfleoedd â phawb arall.** | | |
|---|---|---|
| Nodweddion Gwarchodedig: Pob un | | |
| Meysydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: | | |
| | Camau gweithredu:<br><br>Bydd cynllun gweithredu ar gyfer yr amcan yma'n cael ei gynhyrchu yn 2024/25 i nodi cyfleoedd neu leddfu heriau yn y meysydd allweddol canlynol: | Cynllun Gwasanaeth<br><br>UCGC (Cydraddoldeb) |
| 2.1 | Arolygon profiad cwsmeriaid | |

| | | |
|---|---|---|
| 2.2 | Hygyrchedd Adeiladau Cyhoeddus | |
| 2.3 | Technolegau digidol | |
| 2.4 | Dyluniad y gwasanaeth | |
| 2.5 | Gwasanaethau dehongli | |
| 2.6 | Gorfodaeth parcio | |
| 2.7 | Gatiau a rhwystrau | |
| 2.8 | Cynllun Gweithredu Dementia | |

| **Amcan 3 - Hyrwyddo a hwyluso cymunedau diogel, cynhwysol a chydlynus** | | |
|---|---|---|
| Nodweddion Gwarchodedig: | | |
| Meysydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: addysg, safonau byw, iechyd, cyfiawnder a diogelwch personol, a chyfranogiad. | | |
| | Camau gweithredu | Cynllun Gwasanaeth |
| 3.1 | Annog amrywiaeth cymunedol, hyrwyddo cynhwysiant a meithrin perthnasau da. | UCGC (Cydlyniant) |
| 3.2 | Lleihau nifer y troseddau casineb yn Nhorfaen. | UCGC (Cydlyniant) |
| 3.3 | Ymgysylltu â chymunedau lleiafrifol, eu cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau i hyrwyddo cydlyniant cymunedol ar sail anghenion y gymuned honno a'r gymuned ehangach. | UCGC (Cydlyniant) |
| 3.4 | Rheoli ymgysylltiad yr Awdurdod Lleol gyda Chynlluniau Ailsefydlu Ffoaduriaid a gwasgaru ceiswyr lloches. | UCGC (Cydlyniant) |
| 3.5 | Cyflenwi rhaglen o weithgareddau o'n llyfrgelloedd i ddarparu adnoddau a chyfleoedd dysgu sy'n meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad sy'n ei rhannu. | Cwsmeriaid a Digidol (Llyfrgelloedd) |
| 3.6 | Cynnal dau ymgyrch pob blwyddyn yn y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o ddulliau o ddweud am gasineb a chamdriniaeth ar-lein a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr. | UCGC (Cyfathrebu) |

| **Amcan 4 - Chwarae ein rhan wrth gyflenwi uchelgeisiau strategaethau a chynlluniau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC** |
|---|
| Nodweddion Gwarchodedig: Hil, Cyfeiriadedd rhywiol, Ailbennu rhywedd |

| | | |
|---|---|---|
| Meysydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: addysg, gwaith, safonau byw, iechyd, cyfiawnder a diogelwch personol, a chyfranogiad. | | |
| | Camau gweithredu | Cynllun Gwasanaeth |
| 4.1 | Cwblhau a gweithredu Cynllun Gwrth-hiliaeth i Ysgolion Torfaen | Addysg |
| 4.2 | Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i sicrhau darpariaeth o ddigon o safleoedd addas i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr trwy ddatblygu sylfaen o dystiolaeth wydn i oleuo'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2023 - 2038.<br>• Cynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALlSTh) i asesu'r angen dros gyfnod 2020-2025<br>• Ar sail yr ALlSTh, dyrannu safleoedd yn ôl yr angen yn y CDLlN Adneuol | Cynllunio |
| 4.3 | Hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn gysylltiedig â Nodweddion Gwarchodedig, codi ymwybyddiaeth o ddyddiadau a digwyddiadau allweddol trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Diwrnod Windrush, Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Mis Hanes Pobl Ddu, Mis Hanes LHDTh+ a Mis Balchder. | UCGC (Cyfathrebu) |
| 4.4 | Cyflenwi rhaglen hyfforddiant yng ngwasanaethau digartrefedd y Cyngor i godi ymwybyddiaeth o anghenion penodol pobl LHDTC+, hawliau pobl a rhwystrau, gan gynnwys ffocws penodol ar gefnogaeth lloches a ffoaduriaid LHDTC+. | UCGC (Tai) |
| 4.5 | Parhau i gymryd rhan yn rhwydwaith y Cynghorau Balch a chefnogi a mynd i ddiwgyddiadau Pride. | UCGC (Cydraddoldeb) |

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan 5 - Cynnwys pobl a chymunedau yn y materion sy'n bwysig iddyn nhw a'r penderfyniadau rydym yn eu cymryd.** | | |
| Nodweddion Gwarchodedig: Pob un | | |
| Meysydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: addysg, gwaith, safonau byw, iechyd, cyfiawnder a diogelwch personol, a chyfranogiad. | | |
| | Camau gweithredu | Cynllun Gwasanaeth |
| 5.1 | Casglu ynghyd Grŵp Cyngor ar Gyfranogiad i:<br>• Ddatblygu ein dealltwriaeth o'r bobl sy'n ymateb i arolygon trwy ddefnyddio llwyfan Cymryd Rhan a datblygu strategaethau i dargedu'n well demograffeg sy'n cael eu tangynrychioli<br>• Datblygu a chyfathrebu cynllun ar gyfer ymgynghoriadau a gweithgaredd ymgysylltu, ystyried amseru adolygiadau polisi a strategaeth a chynlluniau newydd, sicrhau bod modd hwyluso sgyrsiau gyda grwpiau sydd â diddordeb a'r rheiny sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio. | UCGC (Cyfathrebu) |

| | | |
|---|---|---|
| | • Rhoi cyngor a chefnogaeth i gynrychiolwyr meysydd gwasanaeth amrywiol ynglŷn â chyfleoedd priodol ar gyfer ymgysylltiad er mwyn goleuo Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb | |
| 5.2 | Parhau i ymgysylltu â, a chefnogi Fforwm Mynediad Torfaen i sicrhau bod yr heriau sy'n wynebu pobl anabl yn ein cymunedau'n cael eu hamlygu ac yn cael eu trin. | UCGC (Cydraddoldeb) |
| 5.3 | Parhau i ymgysylltu â, a chefnogi tri Fforwm 50+ Torfaen i sicrhau bod yr heriau sy'n wynebu pobl hŷn yn ein cymunedau'n cael eu hamlygu a'u trin, a defnyddio'r cyfarfodydd hynny i roi gwybodaeth i bobl hŷn sydd ddim ar-lein. | UCGC (Cydraddoldeb) |
| 5.4 | Ymgysylltu'n helaeth â phobl hŷn a rhanddeiliaid i gyd-gynhyrchu Cynllun Oed-Gyfeillgar i Dorfaen. | UCGC (Cydraddoldeb) |
| 5.5 | Datblygu a chefnogi Cynghrair Ieuenctid Torfaen i sicrhau bod pobl ifanc, gan gynnwys y rheiny o gymunedau lleiafrifol, yn cael cyfle i roi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw. | UCGC (Cyfathrebu) |

| **Amcan 6 - Monitro'n effeithiol cydymffurfiad y Cyngor â'n dyletswyddau statudol o ran cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg** | | |
|---|---|---|
| Nodweddion Gwarchodedig: Pob un | | |
| | Camau gweithredu | Cynllun Gwasanaeth |
| 6.1 | Monitro nifer y cwynion sy'n cynnwys elfen o gydymffurfiad â'r Ddeddf Cydraddoldeb, y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus neu Hawliau Dynol. | UCGC (Cydraddoldeb) |
| 6.2 | Monitro nifer y cwynion sy'n cynnwys elfen o gydymffurfiad â Safonau'r Iaith Gymraeg. | UCGC (Cymraeg) |